# Gwybodaeth yn ymwneud ag Aelodau Cynulliad sy’n siarad Cymraeg

09/03/2011

Annwyl

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law r ar 24 Chwefror pan wnaethoch ofyn,

*Byddwch cystal â rhoi i mi enwau a/neu nifer yr ACau a fyddai’n eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Tybiaf y gellid penderfynu hyn yn ôl yr ACau hynny sy’n gofyn am gael gwasanaethau cyfieithu Cymraeg i Saesneg mewn digwyddiadau siarad cyhoeddus.*

Nid yw’r Cynulliad yn cadw dim gwybodaeth swyddogol am Aelodau’r Cynulliad sy’n eu hystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

At hynny, nid yw’r Cynulliad yn cadw dim gwybodaeth am nifer yr Aelodau o’r Cynulliad sy’n gofyn am gael gwasanaethau cyfieithu mewn digwyddiadau siarad cyhoeddus ar wahân i’r gwasanaethau cyfieithu y mae’n eu darparu ar gyfer busnes swyddogol y Llywydd presennol.

Mae gan Aelodau’r Cynulliad wahanol lefelau o rugldеr sy’n amrywio yn ôl y cyd-destun lle maent yn siarad neu’n gohebu, ac felly nid yw’n rhywbeth y gall y Cynulliad ei fesur.

Mae’r Cofnod o’r Trafodion sy’n cael ei gyhoeddi yn darparu trawsgrifiad llawn o gyfarfodydd Llawn, ac mae’n arddangos yr iaith sy’n cael ei siarad yn y Siambr yn y golofn gyntaf. O ganlyniad, gallwch ddefnyddio’r Cofnod i farnu drosoch eich hun pa mor rhugl yw Aelodau unigol o’r Cynulliad, ac i grynhoi unrhyw ddata pellach y gall fod arnoch eu hangen mewn cysylltiad â’ch ymholiad.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a’r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu ein bod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae manylion am egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad wedi eu gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Yn gywir

Alison Rutherford
Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru